**Rhif: 1**

| | |
| --- | --- |
| **Cais Rhif:** | **C20/0649/44/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **29/09/2020** |
| **Math y Cais:** | **Llawn** |
| **Cymuned:** | **Porthmadog** |
| **Ward:** | **Porthmadog** |
| **Bwriad:** | **Cais ar gyfer gosod pwerdy ~5MWe nwy wrth gefn gyda isadeiledd cysylltiol** |
| **Lleoliad:** | **Tir ger Gelert House Ffordd Penamser, Porthmadog, LL49 9NX** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **GWRTHOD** |

**1. Disgrifiad:**

1.1 Cais llawn yw hwn ar gyfer lleoli cyfleuster gorsaf cynhyrchu trydan yn gyflym ac hyblyg hyd at 5MWe ynghyd a gwaith cysylltiedig i gynnwys camerâu cylch-gyfyng, cabanau amwynder, ciosg nwy, tanciau, ffensio ac adeiladwaith amrywiol ar dir wrth ochr safle Gelert ar gyrion Parc Busnes Penamser ar gyrion Porthmadog.

1.2 Bydd y bwriad, o'i ganiatáu, yn galluogi cynhyrchu trydan mewn amser byr pe byddai ei angen a phan na all y rhwydwaith leol ei gynhyrchu. Maint safle'r cais yw oddeutu 0.14ha a lleolir y cyfarpar offer i fewn i'r safle hwn ac wrth ochr i adeilad helaeth Gelert. Bwriedir codi ffens palisâd o amgylch y safle 2.4m o uchder gyda pyst teledu cylch-gyfyng 4m o uchder mewn mannau ble codi'r ffens ei hun. Bydd y bwriad yn darparu 5MWe o drydan gyda'r foltedd yn cynyddu i 11,000v gan y newidydd ar gyfer rhwydwaith lleol Scottish Power Energy Networks ynghyd a rhwydwaith y Grid Cenedlaethol.

1.3 Bydd y pwynt cyswllt drwy is-orsaf ac bydd pwynt cysylltiad nwy yn agos i'r safle (bydd angen nwy i redeg y peiriannau sy'n trosglwyddo'r trydan ychwanegol a gynhyrchir i'r rhwydwaith lleol/cenedlaethol a adnabyddir y rhain fel gensets). Bydd y cyfarpar offer yn amrywio o ran uchder gyda'r rhan fwyaf rhwng 2m a 3m o uchder. Byddai'r cafnau egsost/exhaust flumes oddeutu 7m o uchder. Ar gyfartaledd, mae cyfleusterau fel hyn yn gweithio am oddeutu 2,500 awr y flwyddyn gyda'r cyfnodau brig rhwng 16:30 i 21:00.

1.4 Mae'r safle wedi ei leoli i ochr safle ac adeilad Gelert o fewn cyffiniau parc Busnes Penamser ar gyrion tref Porthmadog. Mae'r safle wedi ei leoli o fewn parth llifogi C1 ac yn safle Cyflogaeth i'w warchod fel y diffinnir o fewn y Cynllun Datblygu Lleol.

1.5 Mae'r wybodaeth/dogfennau canlynol wedi eu cyflwyno fel rhan o'r cais:

- Datganiad Cynllunio Gorffennaf 2020
- Datganiad Dyluniad a Mynediad
- Asesiad Modelu Gwasgariad Porthmadog Gorffennaf 2020
- Asesiad Effaith Sŵn Porthmadog Gorffennaf 2021
- Asesiad Ecolegol Cychwynnol Awst 2020
- Cynllun Rheoli Adeiladu Trafnidiaeth Ionawr 2021
- Asesiad Sgrinio Rheoliadau Cynefinoedd Cysgodol Ionawr 2021
- Asesiad Canlyniad Llifogydd a Draenio Medi 2020
- Asesiad Risg Tir Halogedig o'r ddesg Gorffennaf 2021

1.6 Nodir yma nad yw'r bwriad yn ddatblygiad mawr fel y'i disgrifir gan Lywodraeth Cymru gan ystyried arwynebedd y safle ac nid yw'n destun sgrinio o dan Asesiad Effaith Amgylcheddol (EIA), Sgediwl 2, Colofn 1 (3) 'Energy Industry - industrial installations for the production of electricity' - gan fod arwynebedd y safle yn llai na 0.5ha.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae’r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi’i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi’i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

ISA 1: Darpariaeth isadeiledd

PCYFF 2: Meini prawf datblygu

PCYFF 3: Dylunio a siapio lle

PCYFF 5: Rheoli carbon

PS 5: Datblygu cynaliadwy

PS 6: Lliniaru Effeithiau Newid Hinsawdd ac Addasu Iddynt

TRA 4: Rheoli ardrawiadau priffyrdd

AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol

PS 13: Darparu cyfle ar gyfer economi ffyniannus.

CYF 1: Gwarchod, dynodi ac amddiffyn tir ac unedau ar gyfer defnydd cyflogaeth.

CYF 5: Defnyddiau amgen o safleoedd cyflogaeth bresennol

PS 19: Gwarchod a ble’n briodol gwella’r amgylchedd naturiol

PS 4: Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad ac hygyrchedd

PS 7: Technoleg Adnewyddadwy

ADN 3: Technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel arall

PS20: Diogelu a Lle bo’n berthnasol wella asedau treftadaeth

AT1: Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig

CCA: Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth, ac unedau manwerthu (2021)

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11 - Chwefror 2021)

Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio

Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygiad a Pherygl Llifogi

Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 C03D/0254/44/LL - CODI ADEILAD AR GYFER DEFNYDD FEL CANOLFAN STORIO A DOSBARTHU (DOSBARTH B8) AC FEL SWYDDFEYDD (DOSBARTH B1) YNGHYD A DARPARU MAES PARCIO, NEWIDIADAU I FYNEDFA GERBYDOL, A DATBLYGIADAU CYSYLLTIEDIG– CANIATAU - 19-05-2003

C15/0109/44/LL - Newid defnydd i gyfleuster ailgylchu deunyddiau a gweithgynhyrchu tanwydd solet sydd wedi ei adfer – CANIATAU - 15-06-2015

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
| --- | --- |
| Cyngor Cymuned/Tref: | Heb eu derbyn |
| Uned Drafnidiaeth: | Cyfeiriaf at y cais uchod a cadarnhaf nad oes gennyf wrthwynebiad i'r bwriad. Nodaf fodd bynnag y mae'r cais yn cynnwys ambell i ddatganiad sydd angen sylw pellach, sef y canlynol:<br><br>· Datganiad Cynllunio: 3.3.2 Daw'r ffordd gyhoeddus sy'n arwain at y datblygiad arfaethedig i ben wrth giatiau prif dderbynfa'r ganolfan ddosbarthu.<br><br>Mae'r ffordd i'r gogledd sy'n dynesu at y fynedfa yma'n rhedeg yn gyfochrog â'r datblygiad arfaethedig ac mae yn ffordd breifat...<br><br>Mae'r hyd at y canolfan dosbarthu yn ffurfio rhan o'r rhwydwaith ffyrdd mabwysiedig, ond rhaid tynnu sylw'r ymgeisydd i'r ffaith mae'r man troi i gyd wedi'i fabwysiadu fel briffordd, gan gynnwys y ffordd i'r gogledd hyd ar terfyn y safle.<br><br>· Datganiad Mynediad: 3.1.3 Mae'r ymgeisydd wedi paratoi ac wedi cyflwyno Cynllun Rheoli Adeiladu Trafnidiaeth gyda'r cais yma.<br><br>Ni welaf y ddogfen uchod yn wybodaeth y cais. Argymhellaf amod/nodyn priodol i ddarparu'r dogfen yma i'w gymeradwyo cyn cychwyn ar unrhyw waith ar y safle.<br><br>Yn ogystal i'r uchod argymhellaf cynnwys nodyn safonol parthed darparu mynediad cwrb smwt (Cais am trwydded Adran 171/184) ar<br><br>terfyn y briffordd yn y man troi, ac i ddarparu llinell wen gwarchod mynedfa (access protection line) fel rhan o'r gwaith i creu'r adw o'r briffordd cyhoeddus. |

**Sylwadau 12.11.2020**

Hapus gyda'r addasiadau i'r Planning Statement, i cydnabod fod y turning area yn rhan o'r briffordd.

Mae'r CTMP fodd bynnag yn warthus ac yn annog trafnidiaeth i fynd trwy Beddgelert am ryw rheswm.

**Sylwadau 12.05.2021**

Mae'r CTMP diwygiedig yn dderbyniol.

Dim gwrthwynebiad i'r bwriad a dim amodau yn yr achos yma

Cyfoeth Naturiol Cymru:

Diolch am ail-ymgynghori gyda ni ar y cais uchod, a dderbyniwyd gennym ar 17 Tachwedd 2021.

Rydym yn parhau i fod â phryderon sylweddol am y datblygiad arfaethedig fel y'i cyflwynwyd.  Argymhellwn na ddylech roi caniatâd cynllunio oni bai eich bod yn cynnwys yr amod a ganlyn gyda'r caniatâd. Fel arall, byddem yn gwrthwynebu'r cais cynllunio hwn:

Amod (Perygl o Lifogydd): Bydd lefel llawr gorffenedig y datblygiad yn cael ei osod ar leiafswm o 150mm uwchben lefelau daear presennol.

Perygl Llifogydd

Mae safle'r cais yn gorwedd ym mharth C1, fel y diffinnir gan y map cyngor datblygu (MCD) y cyfeirir ato yn NCT 15 Datblygiadau a Pherygl Llifogydd (Gorffennaf 2004). Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio (sy'n cynrychioli'r wybodaeth orau sydd ar gael ar berygl llifogydd) yn dangos bod y safle mewn Parth Amddiffyn TAN 15 a gwelir fod y cyfan o'r safle yn un ble fo perygl o risg llifogydd llanw (Parth Llifogydd 3).

Cafwyd cadarnhad yn flaenorol gan y ACLl eu bod yn ystyried fod hwn yn ddatblygiad sy'n agored iawn i niwed.

Mae Adran 6 o TAN 15 yn gofyn bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn penderfynu os y gellir cyfiawnhau datblygiad yn y lleoliad hwn. Rydym felly yn eich cyfeirio at y profion a nodir yn adran 6.2 o NCT 15.  Os ydych yn ystyried bod y bwriad yn cwrdd â'r profion a nodir ym meini prawf (i) i (iii), yna y prawf terfynol (iv) yw i'r ymgeisydd ddangos, drwy gyflwyno Asesiad Canlyniadau Llifogydd, fod modd rheoli canlyniadau posib unrhyw lifogydd i lefel dderbyniol.

Rydym wedi ystyried asesiad canlyniadau llifogydd (ACLl) (Delta Simons, dyddiedig Medi 2020, Cyf: 20-1334.02) a gwybodaeth dopograffeg pellach a ddarparwyd yn y llythyr oddi wrth Delta Simons, dyddiedig 20/11/2020. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr ACLl a'r llythyr dyddiedig 20/11/2020, yn dangos bod peryglon a chanlyniadau llifogydd yn dal yn dderbyniol a gellir eu rheoli yn briodol dros oes y datblygiad. Mae ein cyngor yn seiliedig ar y meini prawf derbynioldeb isod:

Mae'r wybodaeth topograffeg a ddarparwyd yn dangos bod y safle ddigon uwchben lefelau llifogydd hyd yn oed yn y senario achos gwaethaf - Methiant Giatiau Llanw y Cyt a'r Glaslyn. Rydym felly yn argymell eich bod yn cynnwys yr amod a ganlyn, fel a argymhellir yn Adran 7.2 o'r ACLl, mewn unrhyw ganiatâd dilynol:

Amod: Bydd lefel llawr gorffenedig y datblygiad yn cael ei osod ar leiafswm o 150mm uwchben lefelau daear presennol.

Rheswm: Er mwyn gwarchod y datblygiad rhag llifogydd.

Safleoedd Gwarchodedig

Rydym wedi adolygu asesiad diwygiedig y 'Shadow Habitats Regulations Screening Assessment, Land at Porthmadog Business Park, Porthmadog, Delta-Simons Rhif Prosiect 20-1334.05, 29 Ionawr 2021.

O'r wybodaeth a ddarparwyd, rydym yn ystyried nad yw'r bwriad yn debygol o gael effaith sylweddol ar ACA, AGA na safle Ramsar. Mae'r adroddiad Cysgodol ARhC wedi asesu'r effeithiau ar ansawdd yr aer ar yr holl safleoedd gwarchod perthnasol a daeth i'r casgliad nad yw'n debygol y bydd unrhyw effaith sylweddol ar y safleoedd hyn. Rydym erbyn hyn yn cytuno â'r casgliad hwn.

Ar sail y wybodaeth bellach a gyflwynwyd, rydym hefyd yn ystyried nad yw'r datblygiad arfaethedig yn debygol o niweidio nodweddion SoDdGA Coed Tremadog sydd o ddiddordeb arbennig.

Nid oes unrhyw asesiad o effaith sylweddol tebygol dan Reoliad 63 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, wed'i gynnal gan eich awdurdod neu nid yw wedi ei anfon ymlaen i CNC i'w ystyried. Os dewch i'r casgliad bod y datblygiad arfaethedig yn debygol o gael effaith sylweddol ar y safle Ewropeaidd, edrychwn ymlaen i chi ail-ymgynghori gyda ni. Oherwydd absenoldeb yr asesiad yma, ni all CNC roi sicrwydd na fydd y cynigion yn golygu effaith andwyol ar ACA.

Mae angen i'r gweithredwr fodloni (ar sail mewnbwn thermol graddfa casgliad net) gofynion Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, fel a ddiwygiwyd gan gynnwys SI 2018 Rhif.110 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr)

(Newidiwyd) 2018 ar weithredu gofynion y Gyfarwyddeb Cyfarpar Hylosgi Canolig a rheoliadau newydd ar Generaduron Penodol yn weithredol o 20 Rhagfyr 2018. Efallai na fydd trwydded o'r fath yn cael ei chaniatáu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar ein gwefan: https://naturalresources.wales/permits-andpermissions/mediumcombustion-plant-and-specified-generator-activities/?lang=en

Rhywogaethau wedi eu gwarchod

Nodwn bod yr adroddiad ystlumod a gyflwynwyd i gefnogi'r cais uchod (Gwerthusiad Ecolegol Rhagarweiniol, Delta-Simons, Awst 2020) wedi nodi nad oedd ystlumod yn defnyddio safle'r cais. Felly, nid oes gennym unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y cais fel a gyflwynwyd.

Halogiad Tir

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried nad yw'r dyfroedd a reolir yn y safle yma o'r sensitifrwydd amgylcheddol uchaf, ac felly ni fyddwn yn darparu cyngor penodol manwl am y safle o ran materion halogi tir y safle yma.

Argymhellir bod gofynion Polisi Cynllunio Cymru ac Egwyddorion Canllaw Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer Halogi Tir (GPLC 1, 2 a 3), Mawrth 2010, yn cael eu dilyn. Gellir lawrlwytho GPLC o wefan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Seiliwyd y sylwadau hyn ar ein tybiaeth nad oes halogiad dwys yn bresennol yn y lleoliad hwn. Os, yn ystod y gwaith datblygu, y canfyddir bod halogiad dwys yn bresennol ar y safle efallai bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn dymuno ail-ymgynghori gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.

Dŵr Cymru: Amod cynllun draenio dŵr budr

Hawliau Tramwy: Heb eu derbyn

Uned Gwarchod y Cyhoedd: **Sylwadau 14.06.2019**

Amodau Tir Llygredig

1. Gwnaed Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn ymwybodol o lefelau uchel o nwy daear yn y cyffiniau, felly fe ymgymerir ag archwiliad desg i asesu’r risg llygredd dichonol ar y safle ar gyfer y

datblygiad arfaethedig.

2. Petai argymhellion yr archwiliad desg yn dangos fod angen gweithrediad pellach, bydd angen

ymchwiliad ymwthiol digonol i asesu'r risg o lygredd dichonol ar y safle. Os yn angenrheidiol, bydd Strategaeth Adfer yn cael ei hymgorffori.

3. Bydd rhaid i Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd gymeradwyo'r archwiliad desg, ymchwiliad safle, asesiad risg ac unrhyw fesurau rhagofalus ac/neu adferol yn ysgrifenedig cyn dechreuad y datblygiad.

4. Unwaith bydd y datblygiad wedi ei gwblhau, dylid darparu Adroddiad Cwblhad ar y safle a bydd

angen ei adolygu â'i gymeradwyo gan Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd.

Mae Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi gwneud pob ymgais rhesymol i argymell y mesurau mwyaf addas ynglŷn â risgiau llygredd dichonol. Fodd bynnag, ni ddylid cymryd yr argymhelliad yma i arwyddo fod y tir yn saff neu fel arall yn addas ar gyfer y datblygiad yma neu unrhyw un arall.

Mae'r cyfrifoldeb am asesu os yw tir yn addas ar gyfer defnydd penodol yn gorffwys yn sylfaenol ar y datblygwr.

Petai unrhyw broblemau tir llygredig yn dod i'r amlwg yn ystod y datblygiad a allai darfu ar y datblygiad arfaethedig, e.e. os daw cyflwr daear anarferol ar ei draws, yna dylid mynd mewn i ohebiaeth yn syth gyda Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd.

Dylai pob gweithred gael ei gofnodi, a'r wybodaeth ei daenu i Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ar ymchwiliadau safle, asesiadau a gwaith adferol a gyflawnwyd, ble yn berthnasol, a'i gynnwys mewn/yn Adroddiad Cwblhad y safle.

Dylai unrhyw archwiliad dilyn trefn y dogfennau isod:

- BS 10175:2011 Investigation of potentially contaminated sites – Code of Practice (British

Standards Institution 2011.)

- Datganiad Polisi Cynllunio (PPS) 23: Cynllunio a Rheoli Llygredd, Anecs 2: Datblygiad ar Dir a Effeithwyd gan Halogiad (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog 2004, Cyhoeddwyd gan Y Llyfrfa)

- Contaminated Land Report (CLR) 11 Model Procedures for the Management of Land

Contamination (Environment Agency 2004).

- Halogi Tir: Canllaw i Ddatblygwyr (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Asiantaeth Amgylchedd Cymru 2006)

Rhesymau dros yr amodau

Ystyrir fod y mesurau yn angenrheidiol i warchod deiliaid y safle ar gwmpasoedd.

**Sylwadau 04.08.2021**

Yn dilyn derbyn asesiad desg, cadarnhaf fod hyn yn ddigonol ond rhaid amodi fod argymhellion yn Rhan 5.4 yn cael ei dilyn.

**Asesiad Sŵn (12.05.2021)**

Mae'r adroddiad sŵn yn datgan fod yr awdur wedi cysylltu â'r Gwasanaeth a gallaf gadarnhau fod yr Adran yn fodlon efo'r fethodoleg yr asesiad rhan defnyddio BS4142 a BS8233, ond nid oedden ni yn fodlon efo defnyddio data sydd yn 18 mlynedd oed. Roedd yr Adran wedi mynegi i'r arbenigwr sŵn ar yr 6ed Gorffennaf 2020 fod cyfyngiadau symudiad covid-19 wedi cael ei chodi a bod cwmnïau gallu ymgymryd â mesuriadau sŵn ym Mis Gorffennaf 2020.

Mae'r adroddiad sŵn yn datgan na fydd sŵn yn cael unrhyw ardrawiad ar drigolion tai lleol yn stad Pensyflog, Pencoed, Fferm Pensyflog a Gwesty Travel Lodge Porthmadog. Fodd bynnag, tra ein bod yn derbyn casgliadau'r adroddiad sŵn ar ffurf o gynnal yr asesiad yn unol â BS4142:2014 a BS8233:2014, mae'r asesiad sŵn sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad sŵn yn seiliedig ar lefelau sŵn cefndirol sydd wedi eu mesur yn ôl yn 2003 a 2006 ar gyfer y gwaith o adeiladu ffordd osgoi Porthmadog. Felly mae hyn yn ei olygu fod y data yn 18 a 15mlynedd oed erbyn hyn.

Nid yw'n ymarfer da i seilio asesiad sŵn am ddatblygiadau yn 2021 ar fesuriadau hanesyddol fel sydd wedi eu cynnwys yn yr asesiad hwn. Mae'r awdur wedi nodi fod nhw wedi methu mynd allan i fesur sŵn cefndirol oherwydd Covid-19, ond yn ystod Haf 2020 roedd y cyfyngiadau trafaelio wedi cael ei chodi ac felly adeg yma mi oedd o'n bosib i fesuriadau sŵn cefndirol cael ei gwneud. Mae'r awdur yr adroddiad wedi defnyddio sŵn cefndirol o LA90 41.9dB a fesurwyd yn 2003 wrth fynedfa bythynnod Pensyflog.

Mae'r data yn hen a does yna ddim ystyriaeth tuag at unrhyw newidiadau dros y blynyddoedd i lefelau sŵn cefndirol yr ardal (newidiadau mewn sŵn traffig neu unrhyw darddiadau sŵn eraill all

fod yn bresennol neu ddim a gall effeithio’r lefelau sŵn cefndirol yr ardal heddiw.)

Rydym yn cydnabod fod yr awdur yr adroddiad yn rhagweld y bydd lefelau sŵn o’r datblygiad yn isel, enwedig efo’r ffenestri wedi cau yn ystod y nos ac ni fydd y lefelau o’r datblygiad yn cael effaith ar drigolion cyfagos. Nid yw’r adroddiad yn cyfleu'r gwir sefyllfa rhan lefelau sŵn fel y mae’n bodoli heddiw. Hoffwn felly gyfleu ein bod yn bryderus fel adran nad yw’r gwir lefelau cefndir wedi eu mesur a’i gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Awgrymaf fod asesiad sŵn cefndirol yn cael ei gwneud i sicrhau fod y lefelau sydd wedi cael ei datgan yn yr adroddiad yn gywir. Mae 'na bosibilrwydd os oes newid yn y sŵn cefndirol, a bod y sŵn cefndirol yn is na’r hyn cafodd ei fesur yn 2003, fydd hyn felly yn cael effaith ar ganlyniadau’r adroddiad lle efallai fydd rhaid gosod mesuriadau lliniaru.

**Sylwadau 24.09.2021**

Rydym wedi asesu’r adroddiad newydd sydd wedi cymryd lefelau sŵn cefndirol yn 2021 yn lle defnyddio data oedd yn 18 a 15mlynedd oed. Mae’r adroddiad yn dangos does yna ddim llawer o wahaniaeth rhwng y lefelau sŵn sydd wedi cael ei chymryd yn 2021 i’w cymharu â rhai cynharach.

Mae’r casgliad yn nodi bydd sŵn o’r unedau ddim yn uwch na sŵn cefndir yr ardal pan maent yn rhedeg yn ystod y dydd. Mi fydd lefelau sŵn o’r unedau yn uwch na’r lefelau sŵn cefndir yn ystod y nos os mae preswylydd am ddefnyddio gerddi nhw yn ystod y nos, ond tu mewn i’r tai mae’r adroddiad yn cyfleu bydd y lefelau tu mewn i ganllawiau BS 8223. Rydym yn derbyn casgliadau’r adroddiad sŵn, a fydd rhaid sicrhau fod unrhyw uned sydd am gael ei gosod yn gyd fynd efo’r lefelau sŵn sydd yn yr adroddiad. Ni dyle sŵn o'r unedau fod yn fwy na 40dB LAeq, 15 munud pan fesurwyd wrth yr eiddo agosaf sy'n sensitif i sŵn.

Mae’r adroddiad yn nodi bydd yna agwedd tonaidd i’r unedau, ond does yna ddim manylion am beth ydy lefelau'r amledd isel sydd am gael ei gynhyrchu. Mae amleddau isel yn gallu creu problemau sylweddol, fydd rhaid i’r ymgeisydd sicrhau fod yr amleddau ddim am gael effaith negyddol ar drigolion. Dylai uned ddim cael unrhyw gymeriad tonyddol canfyddadwy, ac felly dyle’r ymgeisydd sicrhau fod unrhyw uned yn gallu cydymffurfio efo NR curve 25 rhwng yr oriau o 2300 a 0700, neu fod yr uned ddim yn cael ei chaniatáu i redeg gyda’r nos.

| | |
| --- | --- |
| Uned Bioamrywiaeth | Mae'r ymgeisydd wedi darparu adroddiad ecelygol (Preliminary Ecological Appraisal Porthmadog Business Park) gan Delta-Simons dyddiedig Awst 2020. Mae'r adroddiad ecolegol wedi cynnwys arolwg cynefinoedd (Phase 1 Habitat Survey) ac arolwg rhywogaethau sydd wedi eu gwarchod.<br><br>Gallaf gadarnhau fod yr arolwg a'r adroddiad wedi cael ei gwneud at safon dda. Rwyf yn cytuno efo'r casgliad yr adroddiad ecolegol.<br><br>Cynefinoedd<br><br>Mae'r adroddiad ecolegol yn disgrifio'r safle:<br><br>"The Site comprises a mix of hardstanding, scrub and ephemeral vegetation with hedgerows to the north and southeast boundaries with the gable of an offsite industrial building on the west boundary. There was a metal silo, metal generator building, construction welfare building and a sub-station on Site. The Site did not support standing water at the time of the survey."<br><br>Rhywogaethau<br><br>Yn ôl yr adroddiad ecolegol mae yna botensial i ymlusgiad ac adar sy'n nythu i fod yn bresennol ar y safle, felly mae'r ddogfen yn argymell mesuriadau i osgoi niwed i'r anifeilaidd hwn.<br><br>Nid ydy'r safle yn cynnwys nodweddion gall fod yn clwydfan ystlumod. Gall ystlumod hedfan ar hyd y gwrychoedd.<br><br>Safleoedd Dynodedig<br><br>Mae yna 3 safle dynodedig o fewn 6 km o'r safle datblygu:<br><br>• Meirionnydd Oakwoods and Bat Sites SAC – 900 m i'r gogledd;<br><br>• Lleyn Peninsula and the Sarnau SAC – 1.5 km i'r de;<br><br>• Morfa Harlech a Morfa Dyffryn SAC – 3.5 km i'r de.<br><br>Nid ydy'r datblygiad yn debygol i effeithio'r safleoedd uchod am y rhesymau canlynol:<br><br>• Ni fydd y datblygiad yn achosi colled o dir o fewn y safleoedd dynodedig.<br><br>• Nid oes yna lwybrau effaith rhwng o'r safle datblygu i'r safleoedd dynodedig<br><br>• Ynglŷn â Choedydd Meirionydd ac ystlumod, ni fydd yna effaith arwyddocaol gan y datblygiad, ond er mwyn wella'r safle ar gyfer ystlumod awgrymaf fod y safle yn cael goleuo ym modd sydd |

| | |
| --- | --- |
| | yn addas i ystlumod a dylai'r gwrych cael ei gadw a'i wella.<br><br>Argymhellion<br><br>Argymhellaf fod yr amodau cynllunio yn cael ei rhoi ar y caniatâd er mwyn gwarchod bywyd gwyllt:<br><br>• Rhaid dilyn yr argymhellion dan ran 6.2 (Construction and Operational Phase Protection / Enhancement Measures) yn yr adroddiad ecolegol gan Delta-Simons dyddiedig Awst 2020.<br><br>Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r cais oes ydy'r mesuriadau i warchod bywyd gwyllt yn cael eu dilyn. |
| Uned Draenio Tir: | Ers y 7fed Ionawr 2019, mae angen systemau draenio cynaliadwy (SDC) i reoli dŵr wyneb ar gyfer pob datblygiad newydd o fwy nac 1 tŷ neu lle mae'r arwynebedd adeiladu gydag oblygiadau draenio yn 100m2 neu fwy. Rhaid i systemau draenio fod wedi eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â safonau gofynnol ar gyfer draenio cynaliadwy a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.<br><br>Rhaid i'r systemau hyn gael eu cymeradwyo gan Gyngor Gwynedd yn ei rôl fel Corff Cymeradwyo SDC (CCS) cyn y bydd gwaith adeiladu'n dechrau.<br><br>Oherwydd maint a natur y datblygiad, mae'n bosib y bydd angen cyflwyno cais i'r SAB i'w gymeradwyo cyn i'r gwaith adeiladu gychwyn. Nid oes manylion draenio wedi cyflwyno hyd yma, a hyd nes y gwneir cais i'r SAB mae rhywfaint o ansicrwydd a fyddai cynllun arfaethedig y safle yn galluogi'r datblygiad i gydymffurfio'n llawn â'r gyfres o safonau SuDS cenedlaethol. |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Daeth y cyfnod hysbysebu i ben a derbyniwyd y sylwadau isod:<br><br>• Dim angen ar gyfer y datblygiad<br>• Nid yw'r datblygiad yn cydymffurfio a polisiau amgylcheddol y Cyngor<br>• Oes opsiwn glanach ar y gorwel<br>• Llifogydd |

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae'r bwriad ar gyfer darparu cyfleuster gorsaf cynhyrchu trydan yn gyflym ac hyblyg hyd at 5MWe ynghyd a gwaith cysylltiedig, ac byddai'r cyfleuster yma yn rhedeg (er yn achlysurol) oddi ar nwy, ac felly yn ddibyniadwy ar danwydd ffosil. Cydnabyddir fod ceisiadau tebyg wedi eu

cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol mewn lleoliadau eraill ar y sail y byddent yn ffurfio rhan o’r rhwydwaith cefnogol a gellir ei ddefnyddio pan nad ydyw’r cyflenwad adnewyddol yn ddigonol o fewn y rhwydwaith lleol. Erbyn hyn, mae cynigion tebyg wedi cael eu wrthod ar apel oherwydd eu dibyniaeth ar danwydd ffosil mewn amgylchiadau ble mae cynghorau wedi datgan argyfwng hinsawdd a hefyd ble mae diffyg tystilaeth am yr angen i creu egni trwy llosgi danwydd ffosil. Mae Cyngor Gwynedd wedi cydnabod a datgan argyfwng hinsawdd yn mis Mawrth 2019 ac yn hyrwyddo lleihau defnydd o garbon fel rhan o’u strategaeth.

5.2 Mae polisi PS5 o’r CDLl yn cefnogi datblygiadau ble gellid dangoseu bod yn gyson ac egwyddorion datblygu cynaliadwy, ac y dylai pob cynnig lliniaru’r hyn sy’n peri newid hinsawdd ac addasu i’r effeithiau hynny sy’n anochel yn unol a pholisi Strategol PS 6. Mae polisi PS6 o’r CDLl yn cadarnhau i leddfu effeithiau newid hinsawdd, caniateir cynigion dim ond os gellir dangos eu bod wedi rhoi ystyriaeth lawn i’r hyn a ganlyn ac wedi ymateb iddynt, sy’n cynnwys yr hierarchaeth ynni sy’n hyrwyddo lleihau’r galw am ynni, effeithlonrwydd ynni a defnyddio technolegau ynni carbon isel neu ynni di garbon lle bo hynny’n ymarferol. Mae polisi PCYFF 5 o’r CDLl yn cadarnhau bydd angen i ddatblygiadau ddangos sut roddwyd sylw i’r goeden ynni ym Mholisi PS6 a manteisio i’r eithaf cyfraniad o dechnoleg ynni adnewyddadwy neu garbon isel i fodloni gofynion y cynnig am drydan a gwres.

5.3 Ymhellach i hyn, mae ymgeisydd y cais yn datgan fod angen ar gyfer y ddarpariaeth ac y byddai’n ffurfio rhan o'r rhwydwaith cefnogol a gellir ei ddefnyddio pan nad ydyw'r cyflenwad adnewyddol yn ddigonol o fewn y rhwydwaith lleol (Scottish Power Energy Networks) a chenedlaethol (y Grid Cenedlaethol). Mae’r asiant hefyd wedi datgan fod yna broblemau capasiti lleol sy’n gwahard busnesau lleol rhag tyfu ac ehangu.

5.4 Yn ychwanegol i'r uchod, mae'r ymgeisydd wedi cyfeirio at amcanion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i leihau allyriad nwy a charbon i'r dyfodol agos gyda'r brif nodwedd o geisio lleihau dibyniaeth ar gyfleusterau mawr cannolog cynhyrchu trydan sy'n defnyddio tanwydd ffosil. Er mwyn cydbwyso rhwng yr angen am drydan ynghyd a sicrhau diogelwch ynni/egni ar yr un ochr a defnyddio mwy o egni adnewyddadwy ar yr ochr arall, bydd angen math newydd o gynhyrchu egni o fewn y rhwydwaith leol ac yn agos i'r pwynt treuliant/consumption.

5.5 I'r perwyl hyn, dywedai mae nifer o brosiectau bach sy'n cynhyrchu trydan fel bo ei angen yn effeithlon ac yn brydlon yn cael eu gweithredu ar draws y DU drwy ddefnyddio peiriannau fel gensets sy'n destun y cais hwn. Mae'r peiriannau hyn yn danwydd-effeithlon gan losgi'n lan ac yn defnyddio arwynebedd ol-troed bach gyda lleiafswm seilwaith ac yn cael eu cefnogi gan y Grid Cenedlaethol ynghyd a Llywodraeth y DU.

5.6 Mae PCC, Argraffiad 11, 2021, paragraffau 5.7.2, 5.7.6 a 5.7.11 yn datgan y dylai’r system gynllunio sicrhau cymysgedd priodol o ddarpariaeth ynni sy’n cynyddu’r manteision i’n heconomi a’n cymunedau ac yn lleihau effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol yr un pryd. Mae hyn yn rhan o nod Llywodraeth Cymru i sicrhau’r polisïau datblygu economaidd cryfaf fel sail i dwf a ffyniant yng Nghymru, gan gydnabod pwysigrwydd dadgarboneiddio a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy fel sbardun economaidd ac fel ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy....Dylai’r system gynllunio (mewn perthynas a'r cais arbennig hwn): (i) integreiddio datblygiad gyda darpariaeth seilwaith rhwydwaith grid trydan ychwanegol a (ii) sicrhau’r lleoliad gorau ar gyfer datblygiadau newydd i sicrhau bod adnoddau’n cael eu defnyddio’n effeithlon. Mae rhwydwaith grid trydan effeithiol yn ofynnol er mwyn cyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy a charbon isel. Dylid mabwysiadu dull integredig o gynllunio ar gyfer datblygiadau ynni a seilwaith rhwydwaith grid trydan ychwanegol....Dylai

awdurdodau cynllunio a'r diwydiant ynni, gan gynnwys y Grid Cenedlaethol a Gweithredwyr Systemau Dosbarthu, ymgysylltu â'i gilydd i sicrhau bod cynlluniau datblygu'n rhoi sylw i faterion seilwaith grid. Gall hyn sicrhau hefyd fod cynlluniau buddsoddi ar gyfer trawsyrru a dosbarthu yn cyd-fynd â'r potensial a nodwyd ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel a'r heriau yn y dyfodol o drydaneiddio trafniadiaeth a gwres cynyddol hefyd.

5.7 Er hyn, datganiadau sydd wedi eu cyflwyno gan yr asiant yn unig, ac nid oes tystiolaeth wedi ei gyflwyno fod angen penodol i'r ddarpariaeth yma o gwbl, nac y byddai modd darparu'r cyflenwad drwy modd arall carbon isel neu adnewyddadwy. I'r perwyl hyn, ystyrir fod y bwriad yn groes i amcanion cyffredinol y Cynllun Datblygu Lleol, ynghyd a pholisïau PS7 ac ADN3 yn benodol sy'n hyrwyddo darpariaeth ynni adnewyddadwy neu garbon isel, a PCC, Argraffiad 11, 2021, paragraffau 5.7.2, 5.7.6 a 5.7.11 fel y nodir uchod, a polisïau PS6 ac PCYFF 5 ran lliniaru effeithiau hinsawdd a rheoli carbon.

5.8 Mae Polisi PS13 a CYF1 yn datgan gwarchodir unedau presennol a thir ar gyfer defnyddiau B1, B2 a B8 a rhai mathau o ddefnyddiau unigryw/unique uses ar gyfer creu economi ffyniannus. Mae polisi CYF3 yn caniatáu rhai defnyddiau ategol ar safleoedd cyflogaeth yn ddarostynedig i feinin prawf penodol.

5.9 Nid yw'r bwriad gerbron yn cynnig defnydd cyflogaeth, heibio'r cyfnod o osod y cyfarpar. Cydnabyddir fod y safle bwriedig yn safle bychan lletchwith, ac fod yna unedau gwag o fewn y parc busnes, ond gan nad oes cyfiawnhad penodol ar gyfer y bwriad ni ellir cadarnhau fod y colled o dir cyflogaeth yn dderbyniol yn nhermau polisiau PS13, CYF 1 na CYF 3 o'r CDLl.

**Mwynderau gweledol**

5.10 Fel y cyfeirwyd ato uchod, mae'r datblygiad yn cynnwys amrywiol fathau o strwythurau sy'n amrywio o ffens diogelwch palised 2.4m o uchder i strwythurau sy'n amrywio mewn uchder o 2m i 7m. Cynhwysir y strwythurau hyn o fewn ardal sy'n mesur 0.14ha. Saif y safle y tu cefn i adeiladwaith diwydiannol presennol Gelert gyda llwybr cyhoeddus a trac rheilffordd union tu cefn. Mae llystyfiant uchel ar y ffin tu cefn i'r safle. Mae'r safle wedi ei leoli o fewn tirwedd o ddiddordeb hanesyddol eithriadol, ond gan ystyried gosodiad y safle o fewn y tirlun lleol ni fydd y safle yn weladwy ond o'r safle parc busnes ei hun a'r llwybr a'r rheilfford sy'n pasio heibio'r cefn ac hyd yn oed hynny drwy llystyfiant presennol ac heibio adeiladau presennol. Er bod y bwriad yn cynnwys gosod cafnau egsost 7m o uchder uwchben y peiriannau genset byddai'r uchder hwn yn ymdoddi i'r adeiladwaith presennol ogwmpas y safle. Gan ystyried bod y safle wedi ei sgrinio i rhan helaeth ac ei fod wedi ei leoli o fewn ardal sydd wedi ei ddatblygu yn sylweddol, ni chredir byddai'r bwriad, o'i ganiatau, yn effeithio'n andwyol sylweddol ar fwynderau gweledol na'r ardal leol. Mae'r bwriad, felly, yn dderbyniol ar sail gofynion Polisi PCYFF 2, 3 a 4, PS20 ac AT1 o'r CDLL.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.11 Mae'r safle wedi ei leoli o fewn Parc Busnes Penamser ac mae nifer o defnyddiau gwahanol o fewn y parc yma gan gynnwys gwesty. Fel rhan o'r cais cyflwynwyd Asesiad Swn diwygiedig, ac Asesiad Modelu Gwasgariad ynghyd a Chynllun Rheoli Adeiladu Trafnidiaeth er mwyn asesu effaith ac ad-drawiad y bwriad ar fwynderau cyffredinol a phreswyl deiliaid a defnyddwyr cyfagos.

5.12 Mae'r tai agosaf (stad Pensyflog) wedi ei leoli dros 300m i ffwrdd, ac ni ystyrir y byddai'r bwriad yn cael effaith ar eu mwynderau cyffredinol.

5.13 Fel sydd wedi ei nodi uchod, mae Asesiad Swn diwygiedig wedi ei gyflwyno sy'n defnyddio lefelau sŵn cefndirol cyfredol. Mae casgliad yr asesiad yn nodi na fydd sŵn o'r unedau yn uwch na sŵn cefndir yr ardal yn ystod y dydd, ond y byddai'r lefelau sŵn o'r unedau yn uwch na'r lefelau sŵn cefndir yn ystod y nos, ond o fewn canllawiau BS 8223. I'r perwyl hyn, mae Gwarchod y Cyhoedd yn derbyn casgliadau'r adroddiad sŵn, yn ddarostynedig i sicrhau fod unrhyw uned sydd am gael ei gosod yn gyd fynd efo'r lefelau sŵn sydd yn yr adroddiad, ac i gynnwys amodau ynglŷn â lefelau swn ac oriau.

5.14 Ar sail yr asesiad uchod, ystyrir felly fod y bwriad yn dderbyniol ar sail gofynion Polisi PCYFF2 o'r CDLL.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.15 Mae'r safle wedi ei leoli o fewn Parc Busnes bresennol ac mae Cynllun Rheoli Adeiladu Trafnidiaeth wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais. Yn dilyn diwygiadau i'r ddogfen yma, mae'r Uned Drafnidiaeth wedi cadarnhau fod y bwriad yn dderbyniol. Nodir fod llwybr cyhoeddus wedi ei leoli tu cefn i'r safle (rhwng y safle a'r rheilffordd). Nid oes ymateb wedi ei dderbyn gan Uned Llwybrau'r Cyngor, ond nodir fod y cynlluniau yn ymddangos nad oes effaith ar y llwybr yma.

5.16 Ar sail y wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno felly, ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisi TRA4 o'r CDLL.

**Materion bioamrywiaeth**

5.17 Mae adroddiad ecolegol cychwynol ac asesiad rheoliadau cynefinoedd wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais yma, ac oherwydd agosatrwydd y safle i safleoedd Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llyn a'r Sarnau a Morfa Harlech a Morfa Dyffryn yn ogystal a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Coed Tremadog, mae'n ofynnol i'r Cyngor asesu'r bwriad o dan Rheoliadau Cynefinoedd.

5.18 Mae'r Uned Bioamrywiaeth a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau fod y bwriad yn dderbyniol ar sail yr asesiadau sydd wedi eu cyflwyno ac na fydd y bwriad yn cael effaith andwyol ar y dynodiadau yma cyn belled fod y bwriad yn cael ei gwblhau yn unol â'r mesurau lliniaru sydd wedi ei gosod allan yn yr adroddiadau a gyflwynwyd.

5.19 I'r perwyl hyn, ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o ran effaith ar rhywogaeth, Bioamrywiaeth a dynodiadau lleol a chenedlaethol, ac fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisiau PS19 ac AMG 5 o'r CDLl.

**Materion cynaliadwyedd a'r economi**

5.20 Gellir disgrifio'r safle fel safle a ddatblygwyd o'r blaen gyda hwyneb caled ar ffurf gwastraff llechi iddo ynghyd a chynhwysydd ac adeilad/cyfarpar trydanol wedi ei amgylchynu gyda ffens palisad. Mae natur y bwriad ei hun yn un gellir ei ddehongli fel datblygiad cynaliadwy gan ei fod yn ddatblygiad carbon-isel. Mae Polisi PS5 yn datgan cefnogi'r datblygiadau ble gellid dangos eu bod yn gyson ac egwyddorion datblygu cynaliadwy gan, er enghraifft, rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio tir ac isadeiledd yn effeithiol gan flaenoriaethu ailddefnyddio tir ac adeiladau a ddefnyddiwyd o'r blaen.

5.21 Mae Polisi CYF5 yn datgan gellir caniatáu defnyddiau sydd ddim yn ddefnyddiau B1, B2 neu B8 o fewn safleoedd cyflogaeth os gellir cydymffurfio gyda nifer o ganllawiau ac mae'r ymgeisydd wedi ymateb i'r rhain drwy ddatgan:-

- Mae'r safle a ddewiswyd yn ardal sydd â lefel o ddiangen o ran gofod a defnydd tir. Ni fydd defnyddio'r gofod hwn o fewn maint y cyfleuster warws presennol yn cael unrhyw effaith ar golli unrhyw dir cyflogaeth.
- Mae datblygu a defnyddio'r tir hwn yn cefnogi hyfywedd masnachol parhaus y gweithgaredd masnachol presennol ac felly'n diogelu'r defnydd o'r safle ar gyfer cyflogaeth yn uniongyrchol, mae'n cyflwyno gweithgaredd masnachol ychwanegol a newydd sy'n creu buddsoddiad a chyflogaeth fewnol.
- Mae'r datblygiad yn cefnogi cyflogaeth uniongyrchol trwy gydol y cyfnod gweithredu a chynnal a chadw ac ar ben hynny mae'n darparu cyfleoedd sylweddol ar gyfer cyflogaeth dros dro gyda busnesau lleol yn ystod y cyfnod adeiladu.
- Ar sail natur cefnogi'r twf yn yr economi carbon isel, mae'r datblygiad yn cefnogi sgiliau technoleg gwerth uchel yn y rhanbarth ac mae hyn yn cynorthwyo'n anuniongyrchol i gynnal a thwf nifer y swyddi sydd ar gael yn rhanbarthol sy'n ymwneud â'r economi carbon isel.

5.22 Fel sydd wedi ei nodi eisoes, nid oes tystiolaeth wedi eu gyflwyno i gefnogi'r datganiadau'r ymgeisydd, ac felly i'r perwyl hyn ni ystyrir fod yna gyfiawnhad digonol i'r bwriad nac i'r lleoliad ac felly ystyrir nad yw'r bwriad yn dderbyniol ar sail gofynion Polisi PS5, PS13, CYF1 a CYF5 o'r CDLL.

**Materion llifogydd**

5.23 Mae'r safle wedi ei leoli o fewn parth llifogi C1 ac mae'r bwriad ar gyfer darparu pwerdy nwy ar gyfer creu trydan, sydd yn ôl diffiniadau a gynhwysir o fewn Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd yn datblygiad sy'n agored iawn i niwed.

5.24 Mae asiant y cais wedi darparu penderfyniad gan Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygiad tebyg (nodir mai datblygiad solar oedd y bwriad hwnnw) o fewn parth llifogi. Mae'r asiant yn nodi mai yn y penderfyniad yma nid oedd y bwriad yn cael ei ystyried fel datblygiad sy'n agored iawn i niwed ac y caniatawyd ar sail angen oedd yn gorbwyso'r gofynion ar gyfer cyfiawnhad o fewn parth llifogi.

5.25 Mae cynnwys y penderfyniad yma yn cael ei nodi, ond nodir hefyd fod y penderfyniad yma wedi ei wneud yn 2018 ac fod trafodaethau diweddar rhwng cynghorau eraill yng Nghymru a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau fod y math o ddatblygiad sy'n destun y cais yma yn cael ei ddiffinio fel datblygiad sy'n agored iawn i niwed, ac felly mae swyddogion yn parhau o'r farn yma.

5.26 Mae Asesiad Canlyniad Llifogydd wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais ac wedi ei asesu gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol o ddiffiniad y datblygiad fel datblygiad sy'n agored iawn i niwed ac wedi asesu newid hinsawdd hyd at 2120 yn eu ymateb.

5.27 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau fod lefel y safle yn ddigonol ar gyfer lefelau llifogydd rhagweledol y dyfodol ar yr amod fod rhaid gosod lefel llawr gorffenedig y datblygiad o leiaf 150mm uwchlaw'r lefelau daear presennol.

5.28 Mae NCT yn nodi y dylai cyfeirio datblygiad newydd oddi wrth barth C a thuag at dir addas ym

mharth A, neu fel arall i barth B lle bydd llifogydd afonol neu arfordirol yn llai pwysig. Ym mharth C bydd y profion a amlinellir yn adrannau 6 a 7 yn berthnasol, gan gydnabod serch hynny na ddylid caniatáu datblygiad sy'n agored iawn i niwed a Gwasanaethau Brys ym mharth C2. Yr unig adeg y dylid caniatáu datblygiadau newydd eraill ym mharthau C1 ac C2 yw pan fydd yr awdurdod cynllunio yn penderfynu bod cyfiawnhad i'w leoli yno.

5.29 Yr unig adeg y bydd cyfiawnhad i ddatblygiad o'r fath, gan gynnwys yr isadeiledd cludiant, yw pan ellir dangos:-

i. Bod rhaid iddo fod ym mharth C er mwyn hybu, neu fod yn rhan o, strategaeth adfywio neu strategaeth gan yr awdurdod lleol sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal anheddiad sy'n bodoli'n barod, neu,

ii. Bod rhaid ei leoli ym mharth C er mwyn cyfrannu at amcanion cyflogaeth allweddol sy'n cael eu cefnogi gan yr awdurdod lleol a phartneriaid allweddol eraill er mwyn cynnal anheddiad neu ranbarth sy'n bodoli'n barod.

yn ogystal â,

iii. Bod y cais yn cyd-fynd ag amcanion Polisi Cynllunio Cymru ac yn unol â'r diffiniad o dir sydd wedi ei ddatblygu'n barod (Polisi Cynllunio Cymru ffigur 2.1) a,

iv. Bod canlyniadau posib unrhyw lifogydd, yng nghyd-destun y math o ddatblygiad, wedi cael eu hystyried a'u bod yn dderbyniol yn ôl y meini prawf a restrir yn adran 5 a 7 ac yn Atodiad 1.

5.30 Fel sydd wedi ei nodi uchod, nid oes tystiolaeth wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais ar gyfer cyfiawnhau'r bwriad na'r lleoliad ac felly nid yw'r bwriad yn cydymffurfio gyda polisiau cyffredinol a phenodol y CDLl, ac felly ni ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio gyda maen prawf i. Mae'r safle yn cyd-fynd ac amcanion Polisi Cynllunio Cymru ac yn unol â diffiniad o dir sydd wedi ei ddatblygu'n barod ac felly yn cydymffurfio a gofynion iii. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau fod y bwriad yn dderbyniol o ran gofynion NCT 15 ac felly mae'r bwriad yn cydymffurfio a gofynion iv.

5.31 I'r perwyl hyn, a chan fod y bwriad yn disgyn o fewn dosbarthiad datblygiad sy'n agored iawn i niwed, ac nid oes cyfiawnhad digonol ar ei gyfer, nid yw'r bwriad yn dderbyniol o ran llifogydd ac nid yw'n cydymffurfio a gofynion polisi PS 6 o'r CDLl ynghyd a NCT 15.

**Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

5.32 Mae nifer o sylwadau wedi eu derbyn yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ac wedi eu nodi yn y tabl uchod. Ystyrir fod y materion a godwyd wedi derbyn sylw yn yr adroddiad uchod.

## 6. Casgliadau:

6.1 Gan ystyried yr asesiad uchod, ni chredir fod y bwriad yn dderbyniol ar sail diffyg cyfiawnhad ar gyfer y bwriad a'i leoliad, sydd o fewn tir wedi ei ddynodi ar gyfer defnydd cyflogaeth ac o fewn parth llifogi, ac ei fod yn defnyddio tanwydd ffosil pan mae'r Cyngor wedi datgan argyfwng hinsawdd ac yn hyrwyddo defnyddio llai o garbon. Ystyrir felly fod y bwriad yn groes i;r polisiau sydd wedi eu nodi yn yr adroddiad uchod.

## 7. Argymhelliad:

7.1 Gwrthod - Rhesymau

1. Nid oes tystiolaeth ddigonol wedi ei gyflwyno ar gyfer yr angen am y datblygiad na'i ddefnydd o danwydd ffosil a fyddai'n tanseilio datganiad Cyngor Gwynedd o argyfwng hinsawdd. I'r perwyl hyn, ystyrir fod y bwriad yn groes i amcanion cyffredinol y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2017, ynghyd a pholisiau PS7 ac ADN3 yn benodol sy'n hyrwyddo darpariaeth ynni adnewyddadwy neu garbon isel, polisiau PS 5, PS6 ac PCYFF 5 ran lliniaru effeithiau hinsawdd a rheoli carbon, a Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 11, 2021, paragraffau 5.7.2, 5.7.6 a 5.7.11.

2. Nid oes cyfiawnhad penodol wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais ar gyfer y bwriad ar y safle yma ac felly ni ellir cadarnhau fod y colled o dir cyflogaeth yn dderbyniol ac mae'r bwriad felly yn groes i ofynion polisiau PS5, PS13, CYF, CYF 3 na CYF 5 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2017 sy'n rheoli datblygiadau ar diroedd wedi eu dynodi ar gyfer defnydd cyflogaeth.

3. Mae'r bwriad yn disgyn o fewn dosbarthiad datblygiad sy'n agored iawn i niwed, ac nid oes tystiolaeth ddigonol wedi ei gyflwyno er mwyn sicrhau fod y bwriad yn cydymffurfio a strategaeth y Cyngor, ac felly nid yw'r bwriad yn dderbyniol o ran llifogydd ac nid yw'n cydymffurfio a gofynion polisi PS 6 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2017 ynghyd a maen prawf (i) o baragraff 6.2 o Nodyn Cyngor Technegol 15 Datblygu a Pherygl Llifogydd.